



Ysgol Gynradd Gymraeg Y Castell

Adroddiad Blynyddol Y Llywodraethwyr i'r Rhieni

2019-2020



I'w gyflwyno ar wefan yr ysgol
23^{ain} o Hydref 2020.

Copi papur ar gael ar gais trwy swyddfa'r ysgol.

Cerddwn ymlaen â ffydd yn ein cân.



Cynnwys

Tudalen

2. Cynnwys
3. Cyflwyniad gan Gadeirydd y Llywodraethwyr
4. Gweithgareddau'r Disgyblion
9. Gwaith y Llywodraethwyr
12. Cynllun Datblygu Ysgol
15. Datganiad Cyllidol
16. Tymhorau Ysgol a Gwyliau 2020/2021
17. Anghenion Dysgu Ychwanegol
18. Y Corff Llywodraethol
19. Manylion Cysylltu



Cerddwn ymlaen â ffydd yn ein cân



Cyflwyniad gan Gadeirydd y Llywodraethwyr

Annwyl Rieni a Gwarchodwyr,

Croeso i Adroddiad Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol y Castell ar gyfer 2019 / 2020. Trwy weithgareddau a pholisïau'r ysgol rhwng Medi 2019 a Mawrth 2020, sicrheuwyd bod addysg, lles a throchi disgyblion yn iaith a diwylliant Cymru yn hollbwysig ac mae hyn yn cael ei arddangos trwy gydol yr adroddiad hwn.

Roedd cau ysgolion ym mis Mawrth ac ailagor yn rhannol ym mis Mehefin yn amlwg wedi tarfu'n aruthrol ar bopeth a gynlluniwyd ar gyfer y disgyblion. Rwyf yn llawn edmygedd am faint mor dda y mae'r holl staff, disgyblion a rhieni wedi addasu i heriau Covid-19. Fel y gwyddoch, mae lles pawb yn un o'n gwerthoedd craidd, ond ni fu hyn yn bwysicach erioed ym mywyd yr ysgol nac eleni. Wrth i ni gyd chwarae ein rhan, gall addysg y plant barhau yn effeithiol.

Ar hyn o bryd, rydym yn dymuno newid yn ein byd; felly dylem gadw mewn cof eiriau doeth Nelson Mandela pan ddywedodd mai 'addysg yw'r arf mwyaf pwerus y gallwn ei ddefnyddio i newid y byd'.

Pob dymuniad da a chadwch yn ddiogel.

Yn gywir,

Gareth Williams

Cadeirydd y Llywodraethwyr

Ni chynhaliwyd cyfarfod o dan Adran 94 o Ddeddf Safonau a Threfniadau Ysgolion (Cymru) 2013.

Ni dderbyniwyd yr un cŵyn swyddogol yn ystod y flwyddyn academaidd hon.

Gweithgareddau'r Disgyblion

Yn Ysgol Y Castell, rydym yn falch iawn o'n darpariaeth gwricwlaidd, profiadau dysgu a chyfoethogrwydd y gweithgareddau allgyrsiol a gynigir. Mae'r holl brofiadau isod yn sicrhau darpariaeth eang a chytbwys ar gyfer ein plant. Mae'r profiadau oll yn cyfoethogi eu dysgu ac yn eu hysgogi i weithio hyd uchaf eu gallu; gyda mwynhad, dyfalbarhad ac at bwrpas.

Tymor yr Hydref

Blwyddyn 4 a 5	Mewn Cymeriad
CA2	Sara Lewis Jones i drafod ailgylchu
Blwyddyn 1 – Blwyddyn 6	Ymweliad gan swyddog yr Urdd Siôn Lewis a Mr Urdd
Dreigiau'r Castell	Creu cynllun gweithredu
Blwyddyn 5	Castell Caerdydd
Blwyddyn 1 a 2	Gorsaf Tân Caerffili
Tîmau Pêl Droed	Cystadleuthau'r Urdd
CS a CA2	Jennifer o'r llyfrgell i siarad gyda'r plant
Dreigiau'r Castell	Dathliadau Diwrnod 'Shwmae, Su'mae' i gymuned yr ysgol.
Blwyddyn 1 – Blwyddyn 6	Dynion Tân i siarad gyda'r plant
Blwyddyn 3&4	Gwyl Hoci yn Y Gwyndy
Cyngor Ysgol BI6	Llancaiach – Comisynydd Plant Cymru
Plant PYaDd (BI 6)	Gweithgareddau pontio yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni (Y Gwyndy)
Rhieni'r ysgol	Wythnos ymgysylltu
Prosiect Creadigol	Dechrau o ar y broses o gynllunio prosiect gydag Ysgol Ifor Bach ac Ysgol Gymraeg Caerffili
Blwyddyn 6	Ysgolion Shakespeare – Theatr y Glowyr Coed Duon
Unigolion CA2	Eisteddfod Y Cymoedd
Tîm Nofio	Gala Nofio'r Urdd, Pontypwl
Tîm Gymnasteg	Cystadleuaeth Gymnasteg yr Urdd
Blwyddyn 3	Ymweliad i 'Bwll Mawr' a Gerddi Aberfan
Blwyddyn 6	Stratford upon Avon - Shakespeare
Blwyddyn 6	Abernant – cwrs preswyl – gweithgareddau antur agored
Rhieni'r Derbyn	Cyfarfod am ddarllen
Blwyddyn 6	Diwrnod MAT Rhifedd – Y Gwyndy
Meithrin	Taith i weld Siôn Corn ym Mharc Treftadaeth Rhondda
Derbyn	Taith i weld Siôn Corn yn y 'Royal Mint'

Tymor y Gwanwyn

Nant Yr Aber a Nant Caiach	Mrs Tuffty (diogelwch y ffordd) - codi ymwybyddaeth o waith yn y gymuned 'Pobl sy'n ein helpu'
Nant Y Draenog Nany Cwm Ceffyl Nant Gwyddon	Taith o amgylch tref Caerffili - rôl busnesau lleol yn y gymuned
Dysgwyr MAT (Blwyddyn 6)	Diwrnod Menter a Busnes yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni.
Holl ysgol	Staff yr Urdd i gynnal gweithgareddau Ionawr Iachus
Llysgenhadon yr Ysgol	Cyfarfod Fforwn Iau Caerffili i drafod materion o bwys am addysg yng Nghaerffili.
Cyngor Ysgol	Y Senedd ym Mae Caerdydd
Nant Yr Aber a Nant Caiach	Parafeddyg - codi ymwybyddaeth o waith yn y gymuned 'Pobl sy'n ein helpu'
Tîm Hoci	Cystadleuaeth Hoci'r Urdd
Tîm Pêl-Rwyd	Cystadleuaeth Pêl-Rwyd yr Urdd
Holl ysgol	Disgo Dwynwen (Cyfeillion yr Ysgol)
Blwyddyn 5	Cwrs preswyl yn Llangrannog am wythnos i gael blas ar weithgareddau awyr agored mewn awyrgylch Gymreig. Diolch i Miss Davies, Mrs Griffiths, Mrs Field, Miss Neads, Mrs Curran a Mr Mogg am fynd â'r plant.
Prosiect Creadigol	Gweithdy celf o dan arweiniad Rhys Padarn (Oriol Odl)
Blwyddyn 6	Crucial Crew - gweithgareddau diogelwch yn y gymuned
Holl ysgol	Diwrnod Miwsig Cymru
Tîm Rygbi	Cystadleuaeth yr Urdd
Nant Yr Aber a Nant Caiach	Ymweld â'r orsaf dân - codi ymwybyddaeth o waith yn y gymuned 'Pobl sy'n ein helpu'
Blwyddyn 5	Cartref Henoed 'Castel View'
Dysgwyr MAT Blwyddyn 6	Coleg yr Iesu, Prifysgol Rhydychen - cyfle i'n teuluoedd gael blas ar fywyd yn y brifysgol - rhaglen MAT yr ysgol o dan arweiniad Gareth Robinson
Prosiect Creadigol a Dreigiau'r Castell	Cyngerdd bop gan y Candelas.
Holl ysgol	Gweithgareddau 'Diwrnod Y Llyfr' i fagu cariad at lenyddiaeth
Nant Y Draenog, Nany Cwm Ceffyl Nant Gwyddon	Trip i Barc Safari West Midlands
Blwyddyn 4	Cwrs preswyl i Ganolfan yr Urdd, Bae Caerdydd - blas ar weithgareddau hwylus mewn awyrgylch Gymreig. Diolch i Miss Griffiths, Miss Prince, Mr Robinson a Miss Venables am fynd â'r plant.
Tîm Gymnasteg	Cystadleuaeth Cenedlaethol yr Urdd yn Aberystwyth - Daeth y tîm yn Bencampwyr Cymru.

Llwyddiannau a dathliadau

Dathlwyd gwaith y plant trwy wasanaethau dosbarth. Mae'r rhieni yn falch o'r cyfle i ymweld â ysgol a chymryd rhan yn ein haddoliadau.

Cynhaliwyd Gwasanaethau Cynhaeaf blynyddol gyda'r dysgwyr yn dod â rhoddion hael i'r banc bwyd lleol.

Cynhelir cyfarfodydd misol gan Gyfeillion yr Ysgol i drefnu gweithgareddau cymunedol yr ysgol. Cawsom ddisgo Calan Gaeaf, Ffair Nadolig a Disgo Dwynwen Llwyddiannus iawn.

Bu timoedd pêl-droed, pêl-rwyd, hoci a rygbi yn cystadlu'n frwd yn ystod y tymor.

Cafodd y tîm nofio gyfle i gystadlu yng ngala nofio'r Urdd. Bu Esther Nicholls yn cynrychioli ysgolion Gwent yng ngala nofio cenedlaethol yr Urdd.

Enillodd y tîm gymnasteg, o dan arweiniad Alice Williams, y wobwr gyntaf yng nghystadleuaeth cenedlaethol yr Urdd. Hefyd enillodd Siena Missen ac Anwen Joseph yr ail wobwr yn y parau.

Roedd cyngherddau Nadolig yn llwyddiant ysgubol unwaith eto eleni.

Cynhaliwyd Eisteddfodau ysgol Llwyddiannus tu hwnt lle cafodd dros 70 o blant ym mhob isdran y cyfle i gystadlu wrth lefaru, canu, actio a dawnsio. Fe aeth y ddau enillydd o bob cystadleuaeth ymlaen i'r Eisteddfod Gylch.

- Unawd dan 8 – Osian Jones (1^{af})
- Unawd dan 10 – Tomos Joseph (1^{af}); Gwenllian Hughes (2^{il})
- Unawd dan 12 – Lili Evans (1^{af})
- Alaw Werin dan 12 – Lili Evans (1^{af}); Siena Missen (2^{il})
- Deuwad - Elinor a Siena (1^{af}); Lois a Molly (2^{il})
- Llefaru dan 8 – Osian Jones (1^{af}); Jimmy Maguire (2^{il})
- Llefaru dan 10 – Samuel Fairburn (2^{il})
- Llefaru dan 12 - Oscar Blanchard (3^{ydd})

Dathlwyd Dydd Gŵyl Dewi trwy gynnal Eisteddfodau Llenyddol. Cawsom wledd wrth ddathlu amryw o ddoniau'r dysgwyr. Eleni, cafodd Leila Suffield ei gadeirio a Tyra Smart ei choroni yn brif lenorion yn ystod seremoni arbennig o dan arweiniad Gorsedd Blwyddyn 5. Diolch yn fawr i Mrs A. Hill am feirniadu'r holl gystadleuaethau llenyddol.

Cystadlodd y timoedd darllen (disgyblion MAT) yn frwd yn y Cwis Llyfrau unwaith eto eleni gan ddarllen a thrafod nofelau. Derbyniwyd adborth cadarnhaol iawn gan y beirniaid, ond ni fu llwyddiant.

Dathlwyd Diwrnod y Llyfr gyda'r holl blant a'r staff wedi gwisgo fel eu hoff awduron Cymreig.

Cynhaliwyd hyfforddiant beicio i blant Blwyddyn 6 fel eu bod yn medru gyrru beic ar y ffordd yn ddiogel.

Cynhaliwyd sesiynau ffitrwydd dyddiol mewn cydweithrediad ag ymgyrch yr Urdd i ddathlu 'lonawr lachus'.

Cafodd pob plentyn ym Mlwyddyn 3 wersi nofio dyddiol am dair wythnos. Erbyn hyn, mae 70% o flwyddyn 3 yn medru nofio 25m, sef targed Llywodraeth Cymru am blant 11 oed.

Cynhaliwyd llu o weithgareddau cerddorol i ddathlu Dydd Miwsig Cymru o dan arweiniad Dreigiau'r Castell. Bu pawb yn gwisgo fel seren bop, gwrando ar eu hoff fandiau a chyfansoddi cerddoriaeth. Mae'r plant i gyd wrth eu bodd yn gwrando ar fand yr wythnos gan fagu ymwybyddiaeth gref o wahanol genres o gerddoriaeth Gymreig.



Cerddwn ymlaen â ffydd yn ein cân



Gwybodaeth Presenoldeb 02.09.19 – 20.03.20

	Presenoldeb	Absenoldeb gyda chaniatad	Absenoldeb heb ganiatad
Targed ysgol 2019-2020	95.4%	4.6%	0%
Tymor yr Hydref 2019	95%	3.83%	1.17%
Tymor y Gwanwyn 2020 (hyd at 20.03.20)	92.38%	6.16%	1.47%

Yr ydym yn cyfathrebu'n rheolaidd â rhieni / gwarchodwyr i leihau'r nifer o absenoldebau heb ganiatad trwy negeseuon testun.

Mae mwyafrif o rieni a dysgwyr yn meddwl bod presenoldeb o 90% yn dda. Ydyn nhw'n gywir?

90% presenoldeb = ½ diwrnod ar goll yn wythnosol!

90% presenoldeb dros bum mlynedd yn yr ysgol = ½ blwyddyn ysgol ar goll!

Presenoldeb ar ddiwedd y flwyddyn	Diwrnodau a gollwyd o'r ysgol
100%	0
99.5%	1
97.4%	5
95%	10
90%	19
87%	24
85%	28
80%	38
75%	47

Rydym yn ymbil ar rieni i beidio â chymryd y plant allan o'r ysgol.

Mae pob gwern yn cyfrif!

ADOLYGIAD GWAITH LLYWODRAETHWYR Y FLWYDDYN 2019/20

Roedd blwyddyn academaidd 2019/20 mewn gwirionedd yn 'gêm o ddau hanner'. Tan hanner ffordd drwy dymor y gwanwyn roedd yn fusnes fel arfer, gyda'r corff llywodraethol yn cyfarfod unwaith bob hanner tymor a'r is-bwyllgorau'n cyfarfod yn rheolaidd. Yn union fel pob agwedd arall ar fywyd, effeithiwyd yn sylweddol ar waith y corff llywodraethu gan y pandemig yn ystod ail hanner y flwyddyn. Yn gwbl briodol, trodd pob ffocws at iechyd a lles cymuned yr ysgol mewn cyfnod heriol sy'n newid yn gyson.

Mae'r adolygiad canlynol yn adlewyrchu hanner cyntaf y flwyddyn lle'r oeddem yn gallu cyfarfod yn rheolaidd â Mrs Nuttall a derbyn adroddiadau tymhorol ar gynnydd yr ysgol sy'n cynnwys dadansoddiad manwl o gynnydd disgyblion.

Yn unol â'r gofynion statudol, mae pob llywodraethwr yn cael hyfforddiant ar sut i ddadansoddi'r data a herio'r uwch dîm arwain ar y canfyddiadau. Er enghraifft, gwahoddir aelodau'r corff llywodraethu i sesiwn craffu data lle cânt eu cyflwyno i'r prosesau a ddefnyddir gan uwch arweinwyr i adolygu dilyniant dysgwyr yn erbyn targedau. Yn ei dro, mae hyn yn llywio sgysiau gydag athrawon dosbarth er mwyn deall perfformiad unigolion a grŵp blwyddyn yn well yn erbyn y canlyniadau disgwylidig, gan sicrhau bod pob un o'r rhai sy'n rhoi'r gorau i'w cefnogi a'u hymestyn yn briodol i'w galluogi i ragori.

Yn ogystal â'r cyfarfodydd bob hanner tymor, cynigwyd nifer o gyfleoedd i lywodraethwyr ymweld â'r ysgol drwy gydol y flwyddyn i arsylwi gweithgareddau o ddydd i ddydd gan gynnwys teithiau cerdded dysgu. Roedd llywodraethwyr hefyd yn mynychu gwasanaethau, cyfarfodydd Cyngor yr Ysgol ac yn cael cyfle i wrando ar ddysgwyr a oedd yn rhan o'r rhaglen Thrive yn ystod ymweliad â Hafan. Mae aelodau hefyd wedi mynychu darpariaeth allgyrsiol fel cyngherddau, ffeiriau a gweithgareddau eraill sy'n agored i gymuned yr ysgol. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnig cipolwg gwych ar sut mae'r ysgol yn gweithredu ac maent yn hynod addysgiadol wrth lunio ein gweledigaeth strategol ar gyfer yr ysgol.

Ar ddechrau'r flwyddyn, ailbenodwyd Gareth Williams yn Gadeirydd a phenodwyd Rhian Jones yn Is-gadeirydd. Drwy gydol y flwyddyn cafwyd sawl newid i'r aelodaeth. Croesawodd Gareth Robinson fel Cynrychiolydd yr Athrawon, gan ddisodli Catherine Evans Lugg. Daeth cyfnod gwasanaethu dau aelod ffyddlon i ben fel rhiant-lywodraethwr, Sonia Hughes a Sian Baldwin, sydd wedi caeleu disodli gan Helen Adams a Philip Bowkett. Dywedom ffarwelio â Dr Iwan Morris a Mrs Anwen Hill, (cynrychiolwyr yr awdurdod lleol a'r gymuned leol), y ddau yn aelodau parchus, gwybodus ac hir-lywodraethol. Yn ei thro, croesawyd Mrs. Catrin O'Sullivan fel llywodraethwr cymunedol newydd ac mae Chris Webb, ar ôl cwblhau ei wasanaeth fel rhiant-lywodraethwr, bellach wedi ei benodi yn llywodraethwr cymunedol.

Hoffem ddiolch i'r holl aelodau sy'n gadael am eu cyfraniadau sylweddol drwy gydol eu haelodaeth ac rydym yn cynnig croeso cynnes i bob aelod newydd.

Bydd y corff llywodraethu yn parhau i gefnogi'r ysgol wrth i ni lywio'r heriau parhaus. Hoffem ddiolch i holl staff yr ysgol am eu hymdrechion diflino i gefnogi iechyd a lles disgyblion a chynnal dysgu yn y cyfnod anoddaf, digynsail. Wrth i ni edrych ar ymlaen at 2020/21, mae'n bwysig myfyrio ar yr ymdrechion anhygoel a wnaed gan staff, gan fynd uwchben a thu hwnt i sicrhau bod bywyd ysgol yn ddiogel, yn gynnes ac yn groesawgar yn yr hyn sy'n parhau i fod yn amseroedd anodd.

Adroddiad cynnydd ar Gynllun Datblygu'r Ysgol (2019 - 2020)

Targed - Cynnal a chodi safonau llafar fel eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar safonau ysgrifenedig ar y deilliannau/lefelau uwch.

Gweithredoedd ac Effaith

Mae cynlluniau athrawon yn dangos bod yr athrawon yn drilio patrymau iaith yr wythnos yn ddyddiol a'r Olwyn Dasc fel sylfaen i brosiectau. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn defnyddio patrymau gramadegol yn lled gywir.

Wrth graffu ar lyfrau, nodwyd tystiolaeth o arfer dda (e.e. defnydd effeithiol o WAGOLL/WABOLL a'r wal weithio) trwy'r ysgol gyda'r mwyafrif o athrawon yn ymateb yn bositif i'r adborth blaenorol. Serch hynny, nodwyd anghysondeb yn safon llyfrau un flwyddyn (a ddatryswyd gan dîm addysgu newydd) a'r gordefnydd o daflenni gwaith yn y lleiafrif o ddsbarthiadau.

Wrth wahodd arbenigwyr i'r ysgol i ysgogi'r plant a'r staff i datblygu eu sgiliau llafar trwy weithredu'n greadigol, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mwynhau tasgau drama a chreadigol wrth ymarfer patrymau ieithyddol. Mae gan yr holl staff syniadau llafar newydd a ddatblygwyd trwy weithdy gan Anwen Carlise.

Mae ymweliadau addysgiadol yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddysgwyr yn derbyn cyfle i ddefnyddio eu hiaith llafar wrth fwynhau gweithgareddau y tu allan i'r ysgol.

Mae gwasanaethau dosbarth a chyfleoedd i gystadlu yn yr Eisteddfod yn sicrhau profiadau diri i'r dysgwyr berfformio ar lafar yn gyhoeddus. Mae llwyddinat anhygoel y dysgwyr yn Eisteddfod yr Urdd yn flynyddol yn dyst i safonau uchel yr ysgol a'u hagwedd at ddysgu; gan gynnwys eu hyder, brwdfrydedd a pharch at eu hiaith ac etifeddiaeth.

Defnyddiwyd arbenigedd myfyrwraig BA i gyflwyno trydedd iaith i blant Blwyddyn 6 (Sbaeneg). O ganlyniad, mae'r plant yn medru cyfrif yn Sbaeneg a chyfarch ei gilydd mewn tair iaith.

Mae Dreigiau'r Castell yn arwain gweithgareddau amrywiol i ddathlu Cymreictod yn yr ysgol e.e. Dydd Miwsig Cymru. Aeth Blwyddyn 6 a'r Dreigiau i gyngerdd arbennig gan y gantores Bronwen Lewis yn YGG Caerffili. O ganlyniad, mae cymuned ysgol gyfan yn ymwybodol o waith y Dreigiau yn hyrwyddo'r iaith a Chymreictod tuag at wobr aur Y Siarter Iaith.

Bu tîm darllen Blwyddyn 6 yn cystadlu'n frwd yng nghystadleuaeth flynyddol y Cwis Llyfrau gan ddod yn gydradd ail. Derbyniwyd clod ac adborth gadarnhaol am eu perfformiad a'r ffordd ymlaen.

Mae gan y rhan fwyaf o blant ymwybyddiaeth gadarn o awduron a llenyddiaeth Gymraeg trwy weithgareddau dyddiol a dathliadau arbennig, megis Diwrnod y Llyfr wrth wisgo lan fel eu hoff gymeriad.

Yn dilyn cyfarfod rhwng Arweinwyr Iaith a Llythrennedd â'r Llywodraethwyr enwebedig, mae ganddynt wybodaeth glir am safonau iaith yn yr ysgol a'r ffordd ymlaen.

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir am ddatblygiadau iaith a Llythrennedd trwy gyfarfodydd rhwydwaith â Jonathon Rees (GCA) er mwyn rhannu arferion da, diweddaradau at y Cwricwlwm Newydd a'r cyfleoedd sydd ar gael i ddatblygu sgiliau llafar bellach.

Y Ffordd Ymlaen

Arweinwyr iaith a Llythrennedd yn creu rhestr i'r staff o ddisgwyliadau ym mhob flwyddyn wrth ddatblygu llefaredd plant sy'n cyd-fynd â rhaglenni Tric a Chlic a RWI.

CADY yn darparu hyfforddiant ymyrraethau llafar i'r staff atodol.

UDRh yn trafod darpariaeth llafar yr ysgol gyda Helen Bowen (arbenigedd yn y maes) gan gynnal awdit o'r sefyllfa bresennol ac ail-ystyried eu gweledigaeth am ddarpariaeth llafar.

Targed - Mireinio darpariaeth lles ar gyfer disgyblion a staff yr ysgol.

Gweithredoedd ac effaith

Darparwyd nifer o gyfleoedd i ddysgwyr MATH ym mlwyddyn 5 a 6 i fynychu ymweliadau allanol gyda'r gobai o godi dyheadau a'u hysbrydoli i'r dyfodol. Yn ystod ymweliadau i'r Senedd, Ysgol Gyfun Cwm Rhymni a Choleg Iesu, Rhydychen cafodd y dysgwyr gyfle i gymryd rhan mewn gweithdai a darlithoedd amrywiol. O ganlyniad, mae ymwybyddiaeth gadarn, gwybodaeth drylwyr a dealltwriaeth dda gan bron bob un dysgwr MATH (Blwyddyn 5 a 6) o ganlyniadau posib a chyraeddadwy yn y dyfodol.

Yn dilyn hyfforddiant dwys 'Thrive' i Miss Jessica Neads (Arweinydd yr Hafan), sefydlwyd sesiynau arbenigol i weithredu gyda phlant sy'n emosynol bregus gan weithio ar dargedau fwy penodol i gwrdd a'i anghenion. O ganlyniad, datgana'r plant (sy'n mynychu'r hafan) eu bod yn derbyn gofal arbennig sy'n eu cynorthwyo i ddelio â'u hemosiynau a'u heriau cymdeithasol. Maent yn siarad yn hyderus am sut y mae'r ddarpariaeth yn eu cynorthwyo. Hefyd, mae lleihad yn y nifer o alwadau brys sy'n cyrraedd yr UDRh gan fod y plant mwyaf bregus yn dechrau rheoli eu teimladau yn briodol.

Mae rhan fwyaf o'r staff addysgu wedi derbyn gwybodaeth yn ystod cyfarfod staff am y ddeddfwriaeth newydd ADY. O ganlyniad, fe fydd staff yn ail-edrych ar dargedau IDP gan ystyried a fydd rhai o'r plant (sydd ar y gofrestr ADY) yn cwrdd â diffiniad ADY newydd. Mae'r ALENCo wedi darparu gwybodaeth ddefnyddiol ac arweiniad cryf trwy gyflwyno 'Toolkit Rhwystrau i Ddysgu'. O ganlyniad, mae'r staff yn medru cael gafael ar restrau gwirio gyda strategaethau penodol i weithredu ar lawr y dosbarth a fydd yn bwydo proffiliau un tudalen neu IDP.

Mae'r CADY wedi cwblhau awdit ymyrraethau ADY trwy'r ysgol. O ganlyniad fe fydd hyfforddaint yn cael eu darparu i gefnogi a datblygu sgiliau staff ymhellach. Mae gweledigaeth glir gan yr UDRh am ail-strwythuro staff cymorth, gofynion datblygiad proffesiynol staff i ddarparu ymyrraethau fel eu bod yn cael yr effaith orau ar ddysgu a safonau.

Targed - Mireinio safonau addysgeg ac arweinyddiaeth drwy ymchwil bersonol a datblygiad proffesiynol parhaus i wireddu uchelgais addysgol Cymru.

Gweithredoedd ac effaith

O ganlyniad i'r gwaith ymchwil a'r ymrwymiad i weithredu, bu trafodaethau agored, onest a threiddgar am brosesau Asesu ar gyfer Dysgu yn ystod cyfarfodydd staff. Mae'r parau/triawdau wedi addasu/mireinio eu haddysgeg er mwyn sicrhau bod eu gwersi yn cael yr effaith fwyaf ar gynnydd y plant.

Mae ein staff newydd / ANGau wedi buddio yn fawr o weithio gydag aelodau mwy profiadol. Un o'r prif bwyntiau trafod yw pwysigrwydd 'arafu'r' dysgu gan ail-ymweld â sgiliau craidd os oes angen er mwyn symud y dysgu ymlaen.

Mae'r athrawon yn siarad yn bositif iawn am y cyfleoedd maent yn derbyn i arsylwi ar draws gwahanol oeddrannau. O ganlyniad, maent yn gallu gwerthfawrogi'r gwahanol heriau sy'n bodoli mewn ystod oedran gwahanol, ond hefyd wedi gweld gwahanol strategaethau ar waith, gan drafod ac ystyried datblygiad y plant wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae'n bwysig bod ein hathrawon yn deall o le mae plant wedi dod ac i le y byddent yn mynd nesaf.

Mae'r athrawon wedi cael mynediad i ddatblygiad proffesiynol heb ei ail wrth ddatblygu fel mentoriaid i'r myfyrwyr. Yn rhan o'r gwaith yma, mae disgwyl iddynt fodelu, rhoi adborth, cefnogi, arwain ac weithiau cynnal trafodaethau anodd ac heriol.

Mae'r pum diwrnod o hyfforddiant a gynhaliwyd yn yr ysgol eleni wedi cael effaith bositif iawn. Yn gyntaf, wrth gyflawni gwerthusiad o'r diwrnodau, mae'r myfyrwyr yn bositif iawn am fewnbwn a phrofiadau maent wedi cael. Yn ail, mae arwain y diwrnod yma wedi cynnig DPP arbennig i'n hathrawon fel arweinwyr canol. Rydym hefyd wedi elwa fel ysgol gyfan trwy wneud defnydd effeithiol o'r gwaith ymchwil a ddarparwyd gan y brifysgol wrth gynnal ein prosiect dysgu adlewyrchol. Yn olaf, mae'r berthynas gref iawn gyda Phrifysgol MET Caerdydd a'n hysgolion bartner (YGG Caerffili ac Ysgol Cwm Gwyddon) yn parhau i fynd o nerth i nerth. Mae'r holl waith yma yn dystiolaeth glir o sut yr ydym yn gweithio yn effeithiol tu hwnt fel sefydliad sy'n dysgu.

Targed - Ymgorffori ehangder dysgu ac addysgu ymhellach yn unol â'r pedwar diben craidd trwy ddatblygu MDaPh.

Gweithredoedd ac effaith

Mae'r Arweinydd Dysgu Proffesiynol (Mrs Lowri Griffiths) ac aelodau'r UDRh yn llwyr ymwybodol o ddatblygiadau diwetharaf wrth ddiwygio'r cwricwlwm trwy eu hyfforddiant gyson.

Mae rhaglen ddatblygiad proffesiynol gadarn yn ei lle sy'n gydfynd ag anghenion unigol y staff a gofynion y CDY. Mae amcanion Rheoli Perfformiad pawb ynglwm â'r datblygiadau yma ac, o ganlyniad, mae'r holl staff yn atebol am ddatblygu'r cwricwlwm a rheoli eu datblygiad proffesiynol unigol.

Mae'r staff yn llwyr ymwybodol o'r 4 diben craidd a'r 6 Maes Dysgu a Phrofiad newydd. Maent yn ystyried rhain yn gyson ac yn llwyddiannus wrth gynllunio ar gyfer y plant yn eu dosbarthiadau.

Mae athrawon yr ysgol yn sicrhau cydbwysedd da rhwng datblygu sgiliau craidd y plant a chynnig

profiadau ysgogol bywyd go iawn iddynt. O ganlyniad mae safonau ar ddiwedd y CS a CA2 yn parhau i fod yn uchel ar y lefelau/deilliannau disgwylidig a'r lefelau/deilliannau +1.

Camau Gweithredu Cynllun Datblygu Ysgol

Targed 1 – Cynnal a chodi safonau llafar fel eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar safonau ysgrifenedig ar y deilliannau / lefelau uwch.

Targed 2 – Mireinio darpariaeth lles ar gyfer disgyblion a staff yr ysgol, yn enwedig wrth ddychwelyd i'r ysgol o dan amodau Covid-19.

Targed 3 – Datblygu systemau gweithio o bell sy'n bwrpasol a chyson ar draws yr ysgol.

Targed 4 - Ymgorffori cwricwlwm unigryw'r ysgol ymhellach yn unol â'r pedwar diben craidd a'r MDaPh.



Cerddwn ymlaen â ffydd yn ein cân



Datganiad Cyllidol

Cyllid Ysgol – Gwariant ac Incwm (Ebrill 2019 – Mawrth 2020)

Ardal o Wariant	Cyfanswm	Balans Cyffredinol
Costau Staffio	£1,188,528	
Costau Adeilad	£154,312	
Cyflenwadau a Gwasanaethau	£68,893	
Cynllun Datblygu Ysgol	£11,432	
Cytundeuau Lefel Gwasanaeth AALI	£35,394	
Cyfanswm o Wariant		£1,458,559
Incwm	£194,039	
Gwariant Net		£1,264,520

Cyfanswm Ariannu Ysgol (Ebrill 2019 – Mawrth 2020)

Cyllido	Cyfanswm	Balans Cyffredinol
Dyraniad Fformiwla Cyfanswm	£1,312,327	
Balans a gariwyd drosodd o'r flwyddyn flaenorol	£67,488	
Cyfanswn y Gyllideb		£1,379,815

Tymhorau Ysgol a Gwyliau 2020/2021

	O	I	Hanner Tymor
Tymor yr Hydref 2020	01.09.20	18.12.20	26.10.20 - 30.10.20
Tymor y Gwanwyn 2021	04.01.21	26.03.21	15.02.21 – 19.02.21
Tymor yr Haf 2021	12.04.21	20.07.21	31.05.21 – 04.06.21

Yn ogystal â hyn, bydd yr ysgol yn cau am **chwech** niwrnod arall ar gyfer hyfforddiant mewn swydd i'r staff. Cewch wybod am y rhain cyn gynted â phosib trwy neges destun ac ar wefan yr ysgol. Mae'r calendr hwn yn cwrdd â'r gofynion statudol o 195 o ddiwrnodau, gan gynnwys 189 gyda'r disgyblion yn bresennol a phum niwrnod ar gyfer hyfforddiant mewn swydd.



Amseroedd Ysgol

Yn unol â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, mae'n ofynnol i blant Y Cyfnod Sylfaen weithio am o leiaf 21.5 awr yr wythnos (ac eithrio amseroedd chwarae, gwasanaethau a chofrestri). Dylai disgyblion Cyfnod Allweddol 2 weithio am o leiaf 23.5 awr yr wythnos.

	Y Cyfnod Sylfaen	Cyfnod Allweddol 2
Dechrau ysgol	9.00 – 10.30 y.b.	9.00 – 10.45 y.b.
Toriad boreol	10.30 – 10.45 y.b.	10.50 – 11.05 y.b.
Cinio	12.00 – 1.15 y.p.	12.15 – 1.15 y.p.
Toriad prynhawn	2.35 – 2.45 y.p.	2.20 – 2.30 y.p.
Diwedd y dydd	3.30 y.p.	3.30 y.p.

D.S. Mae disgyblion oed **meithrin** anstatudol yn mynychu'r ysgol rhan amser:

Bore : 9:00 – 11:45

Prynhawn : 12:45 – 3:30

Mynediad i Ddisgyblion Anabledd

Mae croeso cynnes yn Ysgol y Castell i ddisgyblion gydag anghenion a galluoedd arbennig. Er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn cael mynediad cyfartal i'r cwricwlwm, bydd y CALU athrawon dosbarth, Pennaeth ac asiantaethau allanol yn cydweithio i ddarparu anghenion unigol y dysgwyr. Mae Polisiâu Cyfle Cyfartal ac Anghenion Dysgol Ychwanegol yn esbonio hyn yn fanwl.

Mae gan yr adeilad ei hun gyfyngiadau wrth ystyried mynediad i'r anabl. Mae ramp i'r brif adeilad, neuadd a dosbarthiadau allanol. Er bod gan yr ysgol ddau dŷ bach sy'n addas i'r anabl, mae mynediad i ambell ardal fewnol yn anodd tu hwnt.

Lle bo'n bosibl, gwneir trefniadau i gwrdd ag anghenion disgyblion ac ymwelwyr anabl.

Anghenion Addysgol Ychwanegol

Tra ein bod yn annog yr holl ddysgwyr yn Ysgol Y Castell i weithio tuag at eu llawn potensial, rydym yn cydnabod y bydd angen cymorth ychwanegol ar rai disgyblion ar adegau yn ystod eu gyrfaedd ysgol.

Rydym yn cynnwys y disgyblion yma ar gofrestr Anghenion Addysgol Ychwanegol (ADY). Yna, mae ein Cydlynnydd Anghenion Arbennig (CLAAA) yn cynorthwyo'r athrawon dosbarth, y rhieni a'r dysgwyr i ysgrifennu sy'n gosod rhaglen waith unigol a phroffil un tudalen i'r disgyblion hyn:-

Cynllun Addysgol Unigol (CAU),

Cynllun Ymddygiad Unigol (CYU)

Cynllun Chwarae ar gyfer y pant ieuengaf

Hefyd, mae'r CLAAA (Mrs K. Field) yn cysylltu â rhieni, staff eraill, nyrs yr ysgol, therapydd iaith a Llefaredd a'r Gwasanaeth Seicolegol. Derbynnir cyngor a chynhaliaeth gan yr ALI trwy Wasanaethau Cynhwysiad, megis therapydd galwedigaethol, cynhaliaeth ymddygiad a gwasanaeth clyw a golwg.

Mae angen cynhaliaeth ddwys 1:1 ar ambell ddisgybl; derbynia rhai ychydig o oriau o gefnogaeth, cefnogir eraill mewn gweithgareddau grŵp bach. Derbynia'r mwyafrif o ddisgyblion gymorth yn y dosbarthiadau, trwy weithgareddau gwahaniaethol a chymorth gan yr athrawon. Ysgol gynhwysol yw ein hysgol ni, ac rydym yn croesawu dysgwyr gydag amrywiaeth eang o anghenion i mewn i'n dosbarthiadau. Mae pob disgybl yn cael ei gynnwys mewn gweithgareddau dyddiol yn yr ysgol a'r gymuned ehangach.

Darpariaeth MAT

Yn Ysgol Gynradd Gymraeg y Castell, rydym yn cydnabod ac yn cefnogi anghenion y plant a ddynodwyd fel rhai mwy abl a thalentog (MATH) mewn un maes dysgu neu fwy yn unol â chanllawiau NACE.

Ein nod yw sicrhau bod plant unigol yn cael eu hannog i ddatblygu eu rhinweddau, eu doniau a'u potensial o fewn amgylchedd dysgu sy'n cynnwys cyfleoedd a darpariaeth gyfartal. Rydym hefyd wedi ymrwymo i nodi a diwallu anghenion y plant hyn mor gynnar â phosibl er mwyn eu galluogi i gyflawni eu potensial.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gwneud cynnydd enfawr yn ein darpariaeth MAT. ac yn dilyn asesiad llawn o'r ddarpariaeth yn Ysgol Y Castell, ennillom wobwr genedlaethol NACE fel cydnabyddiaeth o'r holl waith caled.

Mae Mr Robinson wedi parhau i weithredu'r polisi, cynnal gweithdai ar gyfer disgyblion CA2 a'r garfan ysgrifennu ar gyfer blwyddyn 2. Cynhyrchwyd holiadur i ddisgyblion a rhieni i ddarganfod pa glybiau allgyrsiol y mae disgyblion yn rhan ohonynt ac hefyd roedd adran i'r rhiant fanylu ar eu sgiliau hwy a'u teuluoedd ehangach i weld a all yr ysgol dynnu ar arbenigedd.

Trefnodd Mr Robinson ymweliad addysgol â Choleg yr Iesu yn Rhydychen ar gyfer detholiad o ddisgyblion MAT Blwyddyn 6 a'u rhieni. Roedd y daith yn brofiad a chyfle gwych. Roedd yn ysbrydoledig iawn i bawb ac roedd y disgyblion a fynychodd i gyd yn frwd iawn i ddilyn taith i'r brifysgol.

Mae'r disgyblion MAT yn arwain y dysgu gan roi cyfleoedd gwych iddynt helpu eraill i wella eu medrau. Enghreifftiau ardderchog o'r hyn yw Prosiectau Ysgol Greadigol a rôl Llysgenhadon Digidol, Arweinwyr Chwaraeon a Dreigiau'r Castell.

Mae'r flwyddyn academiaidd nesaf yn amser cyffrous wrth i ni bathau i fireinio ein darpariaeth MAT. Byddwn hefyd yn edrych i ddatblygu meysydd eraill y tu allan i'r ysgol, ee clybiau, drama, celfyddydau a cherddoriaeth ac yn y maes chwaraeon.

Anelwn at sicrhau bod gan bob disgybl fynediad i'r cwricwlwm, beth bynnag yw ei anghenion a'i allu a byddwn yn parhau i ddefnyddio ystod o fecanwaith gynhaliol er mwyn cyrraedd ein nod.

Adnewyddir prospectws yr ysgol yn flynyddol a'i osod ar wefan yr ysgol.

Y Corff Llywodraethol

Mae'r Corff Llywodraethol yn gyfrifol am reolaeth effeithiol yr ysgol. Mae gennym ddau ar bymtheg o Lywodraethwyr (gan gynnwys y Pennaeth yn rhinwedd ei swydd). Fel arfer, gwasanaethant am bedair blynedd. Nodwyd cyfansoddiad presennol y Corff Llywodraethol isod.

Mrs Ruth Michard yw Clerc i'r Llywodraethwyr; gellir cysylltu â hi trwy Education Achievement Service, Tŷ Tredomen, Tredomen, Caerffili.

Enw	Math o Lywodraethwr	Cyfnod o Wasanaeth
Mr. Gareth Williams (Cadeirydd)	Cynrychiolydd AALI	10.02.16 – 09.02.20
Miss Rhian Jones (Is-gadeirydd)	Cynrychiolydd Cymunedol	30.03.17 – 29.03.21
Mrs. Anwen Hill	Cynrychiolydd Cymunedol	26.01.16 – 25.01.20
Mrs. Eleri Betts	Cynrychiolydd AALI	12.06.17 – 11.06.21
Miss Sara Davies	Cynrychiolydd AALI	23.01.17 – 22.01.21
Dr. Iwan Morris	Cynrychiolydd AALI	01.09.16 – 31.08.20
Mr. Adrian Stone	Cynrychiolydd Cymunedol	13.12.17 – 12.12.21
Mr. Emyr Jones	Cynrychiolydd Cymunedol	04.11.19 – 03.11.23
Mr. Dean John	Cynrychiolydd Rhieni	19.11.18 – 20.11.22
Mr. Chris Webb	Cynrychiolydd Rhieni	15.03.16 – 14.03.20
Mrs. Kate Hall	Cynrychiolydd Rhieni	12.12.17– 11.12.21
Mrs. Helen Adams	Cynrychiolydd Rhieni	13.03.20 – 12.03.24
Mr. Philip Bowkett	Cynrychiolydd Rhieni	13.03.20 – 12.03.24
Mrs. Helen Nuttall	Pennaeth	01.09.09
Mr. Gareth Robinson	Cynrychiolydd Athrawon	04.07.19 – 03.07.23
Mr. Gareth Hughes	Cynrychiolydd Athrawon	01.09.17 – 31.08.21
Mrs. Mairwen Dainton	Cynrychiolydd Staff Atodol	01.09.18 – 31.08.22

**Cynhelir etholiadau nesaf ar gyfer un Rhiant-Llywodraethwr ym Mis Tachwedd
2020**

Manylion Cyswllt

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – Awdurdod Addysg Lleol

Prif Swyddog Addysg

Mrs. K. Cole

Tŷ Penalltau,

Tredomen.

Ffon (01443 815588)

www.caerphilly.gov.uk

Manylion Ysgol

Cadeirydd y Llywodraethwyr: Mr Gareth Williams (trwy Ysgol Y Castell)

Pennaeth: Mrs H. Nuttall

Clerc i'r Llywodraethwyr: Mrs Ruth Michard

(Cysylltwch â Mrs Michard trwy swyddfeydd EAS, Tredomen)

Ysgol Gynradd Gymraeg Y Castell

Heol Cilgant

Caerffili

CF83 1WH

Ffon (029 20864790)

Facs (029 20867220)

E-Bost: yycpa@caerphilly.gov.uk

